

Sut i godi pryder gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC)

Gwranddo

Ymateb

Gwella

Beth yw pryder?

Mynegiant o anfodlonrwydd a wneir tuag at PCGC, yn ymwneud â'i gwasanaethau, neu'r broses ymdrin â phryderon ei hun, lle disgwylir ymateb neu ddatrysiad yn benodol neu'n oblygedig.

Dylai materion neu bryderon penodol yn ymwneud â chynhyrchion neu wasanaethau a gafaelir gan PCGC gael eu rheoli gan y Gwasanaethau Caffael. Mae hyn er mwyn sicrhau bod materion ansawdd a diogelwch cleifion yn cael eu nodi a bod y cyrff priodol yn cael eu hysbysu.

Gweler isod:

[Gwasanaethau Caffael - Cwynion a Chanmoliaeth](#)

[Gwasanaethau Corfforaethol - Pryderon a Chwynion](#)

Mae PCGC wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i'w chwsmeriaid.

Os ydych wedi cael unrhyw broblemau neu os ydych yn teimlo'n anfodlon â gwasanaeth a ddarperir gan PCGC, **rydym yn eich annog i roi gwybod i staff ar y pryd** neu rannu eich meddyliau neu bryderon gyda ni drwy unrhyw un o'r dulliau a amlinellir yn y llynyddiaeth hon.

Mae ein Protocol Rheoli Pryderon a Chwynion yn cyd-fynd â Rheoliadau "Gweithio i Wella" Llywodraeth Cymru.



Sut i godi pryder?

Os ydych yn ansicr ynghylch pwy i gysylltu ag ef neu os nad ydych yn fodlon â'r ffordd yr ymdriniwyd â'ch pryder cychwynnol, cysylltwch â ni dros y ffôn, trwy e-bost neu lythyr fel a ganlyn yn rhoi gwybod i ni am eich pryder a'ch manylion cyswllt.

Rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw gyfathrebiadau penodol y dylem fod yn ymwybodol ohonynt wrth ddelio â'ch pryder:

Cyfeiriad (Wedi'i farcio â "Preifat a Chyfrinachol"):

Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru
Adran Pryderon, Gwasanaethau
Corfforaethol
4-5 Cwrt Charnwood
Heol Billingsley
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QZ

Rhif ffôn: 02921 501500

E-bost: NWSSP.complaints@wales.nhs.uk

Ein hymrwymiad i fynd i'r afael â'ch awgrymiadau a'ch pryderon

Bydd Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru yn ystyried eich pryderon a'ch awgrymiadau yn gwrtais, yn gynhwysfawr, yn deg ac yn effeithlon.

Byddwn yn adolygu eich pryder ac yn ymateb mewn modd agored a gonest.

Byddwn yn cydnabod eich gohebiaeth o fewn dau ddiwrnod gwaith o'i derbyn. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddwch yn cael ateb terfynol o fewn 30 diwrnod gwaith i'r dyddiad y cawsom eich pryder am y tro cyntaf. Nid yw hyn yn cynnwys penwythnosau a gwyliau banc. Os na allwn ymateb i chi o fewn yr amser hwn, byddwn yn rhoi'r rheswm pam ac yn rhoi gwybod i chi pryd y gallwch chi ddisgwyl ateb.

Os ydym ni wedi edrych ar eich pryder ac rydych yn dal yn anfodlon â'n hymateb, gallwch gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Manylion cyswllt yr Ombwdsmon yw:

Ffôn: 0845 601 0987

E-bost: ask@ombudsman-wales.org.uk

Gwefan: www.ombwdsmon-cymru.org.uk

Cyfeiriad: 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed, CF35 5LJ



Pwy all godi pryder?

- ✓ Cynrychiolwyr Byrddau Iechyd GIG Cymru, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig.
- ✓ Cynrychiolwyr o adrannau Llywodraeth Cymru sy'n defnyddio PCGC ar gyfer gwasanaethau penodol
- ✓ Gall cwynion gael eu gwneud gan unigolyn perthnasol sy'n defnyddio gwasanaethau PCGC neu unigolyn sy'n gweithredu ar ran defnyddiwr gwasanaeth
- ✓ Rhanddeiliaid eraill gan gynnwys contractwyr, cyflenwyr ac aelodau'r cyhoedd.

